

Pont Droed Llyn Trawsfynydd – Nodyn ar gyfer y Cyngor Cymuned

Tachwedd 2022

Diwygiad 1.0



Cyflwyniad

Fel rhan o waith adeiladu gorsaf bŵer trydan Maentwrog yn yr 1920au crëwyd cronfa ddŵr o'r enw Llyn Trawsfynydd. Ar yr un pryd, gosodwyd pont droed i ddarparu croesfan dros rannau deheuol y llyn. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) sy'n berchen ar y bont droed, a Magnox Ltd sy'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw parhaus. Nid yw Magnox yn defnyddio'r bont at unrhyw ddibenion gwaith.

Mae'r bont droed ar agor ers 100 mlynedd, ar wahân i'r adegau pan fu'n rhaid ei chau am rhai wythnosau ar y tro er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw.

Gwaith cynnal a chadw ac archwiliadau diweddar

Bob chwe blynedd bydd Magnox yn trefnu archwiliadau manwl o'r bont ac yn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud lle bo angen. Yn 2008 a 2016, newidiodd Magnox yr estyll pren ac yn 2012 aethant ati i newid sawl trestl a rychwant.

Yn dilyn argymhellion yr arolwg a gynhaliwyd yn 2022, rydym bellach wedi cau'r bont drost bryderon diogelwch.

Fel y gwelir yn **Ffigwr 1**, mae'r bont droed wedi'i leoli ym mhen deheuol Llyn Trawsfynydd, sydd o fewn tir eiddo'r NDA.



Ffigwr 1: Lleoliad Pont Droed Trawsfynydd

Gofynion a Chanfyddiadau'r Archwiliad

Rhoddodd Magnox gyfarwyddyd i ymgynghorydd peirianeg fynd ati i asesu cyflwr presennol y bont, i ddarparu cyngor ar ofynion cynnal a chadw (gan gynnwys amcangyfrif o'r costau cysylltiedig) ac i ddarparu amcangyfrif o hyfywedd tymor hir y strwythur.


Roedd yr ymgynghorydd peirianeg wedi cynnal archwiliad o elfennau o'r strwythur sydd uwchben ac odan ddŵr, cyn darparu'r canlynol: -

- Adroddiad llawn ar yr holl elfennau strwythurol ac anstrwythurol. Roedd hyn yn cynnwys llenwi ffurflen, sy'n cyd-fynd â dogfennau dangosyddion cyflwr pontydd, ar gyfer pob rhychwant unigol.
- Gan ddefnyddio'r meini prawf uchod, cadarnhaodd gapasiti strwythurol y bont a chynnig amcangyfrif ar gyfer hyd oes y strwythur.
- Argymhellion ar gyfer gwaith angenrheidiol yn y dyfodol, gwaith cynnal a chadw/atgyweirio/newid.

Mae'r bont wedi'i gwneud o drawstiau dur sy'n pontio rhwng tyrau trestl. Y trawstiau sy'n ffurfio rhagfuriau'r strwythur ac maent wedi'u cysylltu â'r dec a'r trestlau drwy foltau a rhybedion.

Yn safleoedd y trestlau, mae parhad y strwythur yn dibynnu'n fawr ar gysylltiad â bolltau drwy blatiau bychain rhwng gafaelion uchaf pob parapet, heb unrhyw gysylltiad sylweddol arall.

Os oes llawer o elfennau allweddol a ffasnyddion wedi dechrau dadfeilio, bydd y cysylltiadau'n agored i ddifrod, fel sydd i'w weld mewn sawl rhychwant ar hyn o bryd. Gweler y lluniau isod sydd wedi'u anodi mewn Saesneg.






Photo 23: Typical LOS around top bolts on cross beams



Photo 8: Section loss to bottom diagonal, trestle 3



Photo 25: LOS to bay 9 cross beam Span 10



Photo 26: LOS to bay 2 cross beam, span 12

Prif argymhelliad yr adroddiad

Prif argymhelliad yr adroddiad oedd y dylid cau'r bont ar unwaith i'r cyhoedd ar sail y risgiau diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â defnyddio'r bont yn ei chyflwr presennol.

O ganlyniad i'r methiant yn y strwythur, caeodd Magnox y bont i'r cyhoedd ar unwaith ar 9 Awst 2022 er mwyn atal y risg o anafiadau difrifol, cyn gosod rhwystrau parhaol bedair wythnos yn ddiweddarach.



Asesiad o'r Camau Nesaf

Mae Magnox wrthi'n asesu'r camau nesaf.

Ar sail gofynion dylunio, caniatâd cynllunio, arolygon amgylcheddol, a'r gwaith caffael ac adeiladu, amcangyfrifir y gallai'r gwaith adfer gymryd oddeutu 12 i 24 mis i'w gwblhau. Amcangyfrifir mai £2.26 miliwn yw'r gost ar gyfer cyflawni'r gwaith adfer ar bont droed Trawsfynydd. Amcangyfrif dangosol yn unig yw hwn, a gallai ostwng hyd at hanner neu gynyddu hyd at 100% yn fwy. Amcangyfrifir y gallai'r gwaith adfer ychwanegu oddeutu 18 mlynedd at oes y bont. Mae'r amcangyfrif o weddill oes y bont yn seiliedig ar gyflwr y trestlau dur.

Byddai angen achos busnes cryf ar gyfer y cyllid sydd ei angen i gyflawni'r gwaith er mwyn dangos ei werth i drethdalwyr y DU.

Ymgysylltu Cymunedol a Rhanddeiliaid

Mae gwaith Magnox hyd yma wedi canolbwyntio ar ddeall y materion peiranyddol cymhleth a'r risgiau cysylltiedig er mwyn ein galluogi i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol a rhanddeiliaid perthnasol.

Mae Magnox wedi ymrwymo i weithio ac ymgysylltu â chymunedau lleol ar yr hyn sy'n bwysig, ac rydym wrthi'n datblygu cynllun ymgysylltu ac amserlen i sicrhau ein bod yn siarad â phawb dan sylw.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad anffurfiol gydag aelodau'r Cyngor Cymuned ar y mater hwn ac rydym yn croesawu adborth gan y Cyngor Cymuned ar sut a phryd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol. Byddwn yn cysylltu â chi i drafod hyn ymhellach yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dyddiadau ac amseroedd posib ar gyfer cyfarfod:

- 10:00 – 11:00, 28 Tachwedd
- 14:00 – 15:00, 28 Tachwedd
- 09:00 – 10:00, 29 Tachwedd